

CYFARWYDDWR CYLLID A GWEITHREDIADAU

Theatr Clwyd Disgrifiad Swydd

Yn gyfrifol am y canlynol:

Rheolydd Ariannol | Pennaeth Profiad | Rheolwr CRM a Systemau | Rheolwr TG a Chyfleusterau

Yn Atebol i'r:

Cyfarwyddwr Gweithredol

Teulu:

Cymorth Cwmni

Pwrpas y Swydd

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau yn arwain strategaeth ariannol ac effeithiolrwydd gweithredol Theatr Clwyd ac endidau'r grŵp, gan sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau, y systemau a'r seilwaith i gyflawni pob uchelgais artistig a chymunedol mewn ffordd gynaliadwy.

Gan fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol, mae deiliad y swydd yn aelod o'r uwch dîm arwain ac yn arwain ar waith cyllid, profiad ymwelwyr, TG a systemau, a chyfleusterau drwy'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y rhain.

Mae'r rôl yn darparu cyngor ariannol clir i'r Cyfarwyddwr Gweithredol, yr uwch arweinwyr a'r ymddiriedolwyr; yn cryfhau gwaith llywodraethu a rheoli risg; ac yn arwain gwelliant parhaus mewn perfformiad ariannol, hygyrchedd, profiad ymwelwyr a gwydnwch gweithredol.

Prif gyfrifoldebau

Cyffredinol

- Aelod allweddol, brwd a chefnogol o'r uwch dîm arwain.
- Llais allweddol wrth sicrhau rhaglen gytbwys sy'n ariannol gyfrifol.
- Arwain gyda phositifrwydd ac empathi, gan sicrhau bod y Cwmni'n hapus ac yn llawn cymhelliant.
- Goruchwyllo'r dasg o gynllunio a chyflawni gwaith cynnal a chadw ar gyfer holl safleoedd Theatr Clwyd gyda'r Rheolwr TG a Chyfleusterau.
- Cefnogi gwaith y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Artistig.
- Hyrwyddo a chefnogi Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd Theatr Clwyd ym mhob rhan o'r gwaith.
- Ymrwymiad i raglen Craidd, gan sicrhau gwrth-ableddiaeth rhagweithiol ym mhob agwedd ar ein gwaith a mynediad gwell i bobl Fyddar, Anabl a Niwrowahanol (DDN) drwy ein gweithgareddau i gyd.

Strategol

- Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol, arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ariannol ar gyfer y busnes er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol i'r dyfodol.
- Bod yn aelod gweithredol o'r Uwch Dîm, gan gyfrannu'n ystyrlon at weithredu'r weledigaeth artistig a chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth hirdymor.

- Bod yn greadigol wrth adnabod, gwerthuso, gweithredu ac adolygu ffyrdd newydd o weithio (strwythur, systemau, prosesau a dulliau) er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni ein gwaith.

Ariannol

- Gosod a monitro targedau ariannol ar gyfer holl gwmnïau Theatr Clwyd, mewn cytundeb â'r Cyfarwyddwr Gweithredol.
- Rheoli swyddogaeth gyfrifyddu'r cwmni yn gyffredinol.
- Adolygu, datblygu a chynnal system reolaeth fewnol gadarn ar gyfer rheoli cyllid yn effeithiol.
- Arwain y broses o ddatblygu cynllun y gyllideb flynyddol, gan gefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol i lunio cyllidebau blynyddol a rheoli'r cyllidebau hynny'n ddarbodus.
- Rheoli rhagolygon llif arian cadarn, hylifedd a chynllunio cronfeydd wrth gefn.
- Rheoli cyllid cyfyngedig ac amodau grant cyrff cyllido.
- Paratoi a chyflwyno cynlluniau ac adroddiadau ariannol misol, chwarterol a blynyddol i'r Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio, a'r Uwch Dîm Rheoli. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar lefel grŵp ac ar lefel endid, gan gynnwys adroddiadau cyfunol lle bo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau bod gofynion rheoleiddiol pob corff statudol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni.
- Cyflawni dyletswyddau Ysgrifennydd y Cwmni ar gyfer dwy elusen Theatr Clwyd.
- Rheoli cysylltiadau â darparwyr gwasanaethau allanol, gan gynnwys bancwyr, yswirwyr, archwilwyr, HMRC ac ati, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.
- Goruchwyllo gwaith yr adran gyllid i gefnogi'r Rheolydd Ariannol.

Profiad a Gweithrediadau

- Defnyddio data a gwybodaeth gan gynulleidfaoedd i asesu profiad defnyddwyr, a gweithio gyda'r Cwmni ehangach i wella'r profiad yn seiliedig ar ddata.
- Sicrhau bod taith y gynulleidfa yn glir, yn gryno, yn gyfeillgar ac yn bleserus.
- Galluogi Theatr Clwyd i gynyddu incwm a enillir ym mhob maes, gan ddefnyddio dull sy'n cael ei arwain gan ddata.
- Goruchwyllo gweithgareddau masnachol ategol, a'u datblygu ar y cyd â'r Pennaeth Profiad.
- Gweithio gyda'r Pennaeth Datblygu a Digwyddiadau Masnachol i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd ac archebion ar gyfer digwyddiadau.
- Cefnogi'r gwaith partneriaeth gyda Bryn Williams yn Theatr Clwyd o ran darparu bwyd a diod, gan sicrhau ei fod yn brofiad integredig i ymwelwyr a chynulleidfaoedd.
- Sicrhau bod pob agwedd ar y gwasanaethau croesawu yn cynnig amgylchedd croesawgar i gynulleidfaoedd a chymunedau.
- Rheoli lles a diogelwch cynulleidfaoedd a galluogi'r Pennaeth Profiad i gynnal gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid bob amser.
- Helpu i greu awyrgylch llawn creadigrwydd yn yr adeilad sy'n annog artistiaid, cynulleidfaoedd a chymunedau i greu, i brofi ac i gymryd rhan yn rhaglen artistig Theatr Clwyd.

Systemau, Monitro ac Adrodd

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr eraill ar lefel uwch i sicrhau bod y systemau a ddefnyddir yn ein gwaith yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ar draws y sefydliad.
- Datblygu a chynnal systemau sy'n caniatáu i ni olrhain perfformiad y sefydliad a thueddiadau ymhlith y gynulleidfa, ac sy'n ein galluogi i adrodd yn ôl i randdeiliaid, yn ogystal ag ymateb yn gyflym i wybodaeth a geir o ddata.
- Bod yn arweinydd yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer TG.
- Cefnogi'r Rheolwr CRM a Systemau wrth gynnal y safonau uchaf wrth ddefnyddio systemau ar draws y cwmni.
- Sicrhau bod gan y theatr seilwaith TG a thelathrebu dibynadwy a gwydn sy'n addas at y diben, yn gost-effeithiol ac yn diwallu ei hanghenion, gan gynnwys mecanweithiau cymorth priodol a threfniadau wrth gefn/rheoli risg.

Adeiladau a Chyfleusterau

- Bod yn Uwch Reolwr arweiniol ar gyfer cyfleusterau ac adeiladau o fewn ein hystâd
- Galluogi'r Rheolwr TG a Chyfleusterau i fuddsoddi yn ein hamgylchedd ffisegol a'i gynnal i'r safonau uchaf
- Nodi a goruchwyllo unrhyw fuddsoddiad cyfalaf a chyflenwi sydd eu hangen o fewn ystâd Theatr Clwyd
- Cysylltu â landlordiaid ein hadeiladau i sicrhau bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth a buddsoddiad ar waith ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Ffactorau Allanol

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gynnal partneriaeth waith agos ac effeithiol gyda rhanddeiliaid allanol a gweithwyr llawrydd, gan gynnwys:
 - Contractwyr Cyfalaf, Gweithwyr Creadigol ym maes Cynhyrchu, Partneriaid Arlwy, Awdurdodau Trwyddedu, Gwasanaethau Brys, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Cymryd rhan allweddol yn y gwaith o ysgogi perthnasoedd â busnesau lleol eraill.

Iechyd a Diogelwch

- Gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu a Rhaglennu, ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol am rwymedigaethau iechyd a Diogelwch Theatr Clwyd.
- Sicrhau bod Theatr Clwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion ar gyfer Pobl Fyddar, Anabl a Niwrowahanol (DDN) ac ymdrechu'n barhaus i wella trefniadau mynediad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ganllawiau statudol ar gyfer polisïau a gweithdrefnau tân, diogelwch, iechyd a diogelwch ac argyfwng.
- Cynnal y safonau uchaf yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu safleoedd.

Creu Theatr

- Cefnogi twf a statws rhaglenni proffesiynol ar gyfer creu theatr.
- Sicrhau bod y lefel briodol o adnoddau ar gael i gyflawni rhaglenni creu theatr o safon fyd-eang.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Cynhyrchu a Rhaglennu i gyflwyno a chynhyrchu sioeau mewnol ledled y DU ac yn rhyngwladol.

Cymunedau a Cherddoriaeth

- Sicrhau bod gan y gwaith o fewn cymunedau statws cyfartal â'r gwaith a gynhyrchir ac a gyflwynir ar lwyfan.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cerdd i ddatblygu a chodi proffil Cerddoriaeth Theatr Clwyd, gan gynyddu cyfranogiad drwy fodel ariannol cadarn a chynaliadwy.

Cymorth Cwmni

- Gosod amcanion a thargedau ar gyfer aelodau'r Cwmni rydych chi'n rheolwr llinell arnynt, monitro perfformiad a chynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a sesiynau un i un gydag unigolion.
- Goruchwyllo'r dasg o recriwtio ar gyfer meysydd cyfrifoldeb.
- Sicrhau bod lles y Cwmni yn cael proffil uchel drwy'r amser ym mhob rhan o'n gwaith.
- Cefnogi ymdrechion Theatr Clwyd o ran amrywiaeth a chynaliadwyedd y Cwmni, a hyrwyddo'r cynlluniau hyn yn fewnol ac yn allanol.
- Ymdrechu'n barhaus i integreiddio'r Cwmni'n llawn a gwerthfawrogi gwaith pobl ar draws disgyblaethau. Annog cymryd risg, gwaith caled a meddwl yn greadigol a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol a chefnogol.
- Darparu goruchwyliaeth ac atebolrwydd cyffredinol am wasanaethau cyflogres y cwmni, gan sicrhau bod y gyflogres yn cael ei chyflwyno'n gywir, yn effeithlon ac yn brydlon, mewn cydweithrediad â'r tîm Pobl a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Codi arian

- Cefnogi gwaith datblygu ar gyfer codi arian cyfalaf a refeniw.
- Adolygu cynigion ariannu mawr i sicrhau bod modd delio ag archwiliadau gwybodaeth ariannol a rhagdybiaethau o ran costau.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt uwch allweddol ar gyfer noddwyr busnes a chyllidwyr er mwyn cefnogi ein gwaith datblygu.

Arall

- Mynd i gynrychiadau, digwyddiadau a gweithgareddau eraill Theatr Clwyd.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.
- Cyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelwch y theatr.
- Gweithredu fel deiliad allweddi dynodedig ar gyfer y theatr.
- Bod yn ddeiliad y drwydded ar gyfer Theatr Clwyd.
- Hyrwyddo a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob agwedd ar y rôl.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol y gofynnir amdanynt gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Artistig.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Cymhwyster cyfrifyddu proffesiynol
- Profiad sylweddol fel uwch arweinydd cyllid yn y sector elusennol
- Profiad sylweddol o reoli gweithrediadau lleoliadau mewn sefydliad cymhleth ar gyfer y cyhoedd, gan ddangos effeithiolrwydd mewn gwasanaethau i gwsmeriaid
- Profiad o weithio gydag aelodau Bwrdd ac ymddiriedolwyr, ac adrodd yn ôl iddynt
- Dangos lefel uchel o sgiliau ym maes trefnu a chynllunio
- Profiad amlwg o gyflawni targedau masnachol.
- Gwybodaeth gyfoes am ddeddfwriaeth trwyddedu ac iechyd a diogelwch
- Sgiliau gweinyddol cryf
- Gallu amlwg i gyfathrebu'n effeithiol ac yn hyderus gyda grwpiau amrywiol o bobl
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt
- Dangos ymrwymiad i ragoriaeth artistig

Dymunol

- Deiliad Trwydded Bersonol
- Gwybodaeth ynghylch TAW ac eithriad diwylliannol
- Gwybodaeth am Ryddhad Treth Theatr
- Gwybodaeth am ofynion DDN a gweithio gyda gofynion mynediad cynulleidfaoedd/ymwelwyr
- Cymhwyster iechyd a diogelwch
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf
- Profiad o weithio yn y sectorau theatr, celfyddydau neu ddiwylliannol
- Gwybodaeth dda am dechnegau hyrwyddo, technegau gwerthu a marchnata
- Cymhwyster trwyddedu cydnabyddedig
- Sgiliau Excel a TG uwch
- Dangos angerdd dros weithio o fewn y sector celfyddydau perfformio
- Trwydded yrru lawn
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar